
# JON BUNYAN

Mae Jon yn unigolyn uchel ei barch yn y gymuned pêl-fasged yng Nghymru, a fe yw'r grym y tu ôl i Glwb Pêl-fasged Pontypridd Panthers. Ers sefydlu'r clwb yn 2011, mae Jon wedi gwirfoddoli oriau di-rif er mwyn datblygu pêl-fasged llawr gwlad a chreu cyfleoedd i bobl ifainc yn ardal Pontypridd.

Gan ddechrau o fenter ar gyfer ysgolion cynradd, yn cynnwys wyth ysgol leol, mae'r clwb wedi tyfu'n sefydliad cymunedol ffyniannus, gyda mwy na 100 o chwaraewyr o'r tîm dan 10 oed i'r tîm hŷn. Mae'r Panthers wedi sicrhau llwyddiant cyson dan arweiniad Jon, gyda chwaraewyr yn cynrychioli Cymru yn rheolaidd, a rhai wedi mynd ymlaen i gynrychioli ar lefel Prydain a phêl-fasged prifysgolion Adran 1 yn UDA. Yn ogystal â hyfforddi, mae Jon yn datblygu dyfarnwyr, hyfforddwyr a swyddogion cynghrair er mwyn cynorthwyo â thwf pêl-fasged yn lleol yn hirdymor. Mae ei frwdfrydedd, ei arweiniad, a'i ymrwymiad wedi cael effaith barhaol ar gamp pêl-fasged ac ar y gymuned ehangach.




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

## GWIRFODDOLWR Y MIS

## MEHEFIN 2026